

Cymerwch ran yn ein Rheithgor i Ddinasyddion

Mynnwch gael rhoi eich barn ynglŷn â gofal
cymdeithasol yng Nghymru



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Brifysgol De Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Mesur y Mynydd: Rheithgor i Ddinasyddion sy'n archwilio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014'.

Mawrth 2020

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, bydd hyn yn meddwl **Prifysgol De Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Katie Cooke ar:



E-bost: katie.cooke@southwales.ac.uk



Ffôn: 07964 407 739



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....2

Cyflwyniad.....4

Beth fydd arnoch chi angen ei wneud os byddwch chi'n
cymryd rhan?.....6

Fyddwch chi'n cael eich talu?.....7

Beth yw'r pethau anodd ynglŷn â chymryd rhan?.....8

Beth yw'r pethau da ynglŷn â chymryd rhan?.....9

Beth os bydd problem yn codi?.....10

Fydd y pethau rydych chi'n ddweud yn cael eu
cadw'n gyfrinachol?.....11

Beth fyddwn ni'n ei wneud â chanlyniadau'r gwaith?.....12

Cyflwyniad

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

Prifysgol De Cymru ydyn ni. Mae arnon ni eisiau gwybod am brofiadau pobl o ofal cymdeithasol.



Yn 2014 gwnaeth Llywodraeth Cymru ddeddf newydd sy'n cael ei galw'n **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**.



Cafodd y ddeddf hon ei gwneud i helpu pobl gael y gofal a'r gefnogaeth iawn. Ac i helpu pobl fyw y bywyd maen nhw'n ddewis.



Rydyn ni'n casglu grŵp o bobl at ei gilydd i rannu eu barn am ofal cymdeithasol i weld a yw'r ddeddf yn gweithio. Mae'r grŵp hwn yn cael ei alw'n **Reithgor y Dinasyddion**.



Rydyn ni'n chwilio am bobl 18 oed a throsodd i fod yn rhan o'r Rheithgor. Mae arnon ni eisiau cymaint o wahanol fathau o bobl ag sy'n bosibl i gymryd rhan. Byddwn yn dewis aelodau'r Rheithgor ym mis **Gorffennaf**.



Os hoffech chi fod yn Reithiwr llenwch **ffurflen gofrestru Rheithgor y Dinasyddion** a'i hanfon yn ôl at Katie Cooke. **Gwnewch hyn erbyn 1 Gorffennaf 2020.** Does dim rhaid i chi gymryd rhan. Eich dewis chi yw hyn.



Bydd y ddogfen hon yn dweud wrthyfych chi beth fydd yn digwydd yn **Rheithgor y Dinasyddion**. Mae'n bwysig deall yr wybodaeth hon cyn i chi benderfynu oes arnoch chi eisiau cymryd rhan.



Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cysylltwch â'r rheolwr prosiect, Katie Cooke, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar **dudalen 2**.




Llywodraeth Cymru sy'n talu am Rheithgor y Dinasyddion.



Mae Rheithgor y Dinasyddion yn cael ei drefnu gan grŵp o fudiadau sy'n cael ei alw'n **grŵp llywio**. Gallwn roi rhestr lawn o'r bobl sydd yn y grŵp llywio os byddwch chi'n gofyn.

Beth fydd arnoch chi angen ei wneud os byddwch chi'n cymryd rhan?



You will meet over the internet for 5 days from 21 September to 25 September.



You will meet for up to 4 hours per day. And you will need to do some work to get ready before we meet.



You will work together with other people over the internet to answer a question about social care. We will support you to understand and answer the question.



You need to come to all of the online sessions.



We will support you with what you need.



Byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen gydsynio sy'n dweud eich bod yn deall beth yw'r Rheithgor ac yn cytuno i gymryd rhan.



Byddwn yn gofyn i chi lenwi rhai arolygon byr cyn, yn ystod ac ar ôl y Rheithgor. Mae hyn er mwyn i ni fedru deall eich profiad.

Fyddwch chi'n cael eich talu?



We will pay you £300 for taking part and to cover things like childcare costs.



We will also give you a laptop which you can keep.



Os ydych chi'n poeni na fedrwch chi gymryd rhan yn y Rheithgor oherwydd rhesymau ariannol dywedwch wrthyn ni. Byddwn yn ceisio eich helpu chi.

Beth yw'r pethau anodd ynglŷn â chymryd rhan?



Gan fod y Rheithgor yn para pum diwrnod efallai y byddwch yn ei weld yn flinedig.



You will be doing something new online. And you will be working from home. This might take a lot of energy.



Meddyliwch am hyn cyn penderfynu cymryd rhan. A meddyliwch a oes unrhyw beth y gallwn ni wneud i'ch helpu chi.

Beth yw'r pethau da ynglŷn â chymryd rhan?



Mae **Rheithgor y Dinasyddion** yn gyfle da i chi gael rhoi eich barn ar rywbeth sy'n bwysig.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn clywed beth sydd gennych chi i'w ddweud.



You will get to know new people over the internet.



Ac efallai y byddwch chi'n dysgu medrau newydd neu'n gwella'r medrau sydd gennych chi'n barod.



Er enghraifft, byddwn yn eich helpu i gymryd rhan mewn trafodaethau ac i ofyn cwestiynau.

Beth os bydd problem yn codi?



Gallwch ddewis i roi'r gorau i fod yn rhan o'r Rheithgor ar unrhyw adeg. Does dim rhaid i chi roi rheswm.



Os oes arnoch chi eisiau gwneud cwyn gallwch gysylltu â:

- **Dr Rachel Iredale**, Prif Ymchwilydd y prosiect.
Ffôn: 01443 483075
E-bost: rachel.iredale@southwales.ac.uk
- Person o **Ofal Cymdeithasol Cymru**, fydd yn bresennol yn y Rheithgor.
- **Mr Jonathan Sinfield**, Swyddog Llywodraethu'r Brifysgol.
Ffôn: 01443 484518
E-bost: jonathan.sinfield@southwales.ac.uk

Fydd y pethau rydych chi'n ddweud yn cael eu cadw'n gyfrinachol?



No. We will write down what you say. We will record some of the Citizens' Jury, and put some parts on the internet for people to watch as it happens.




Bydd y cyhoedd yn medru gweld beth rydyn ni'n ffilmio.



Byddwn yn gofyn i chi am eich manylion cyswllt er mwyn i ni fedru cadw mewn cysylltiad â chi ynglŷn â'r Rheithgor. Pan fydd y Rheithgor wedi gorffen byddwn yn cael gwared â'r wybodaeth hon yn ddiogel.



Byddwn hefyd yn casglu peth gwybodaeth amdanoch chi. Er enghraifft, o ble rydych chi'n dod a beth rydych chi'n credu ynddo. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod ein Rheithgor yn cynrychioli pawb yng Nghymru.



Os byddwch chi'n penderfynu peidio â chymryd rhan unwaith mae'r Rheithgor wedi cychwyn byddwn yn cael gwared ag unrhyw wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni yn ddiogel.



However, the public may still be able to see the things you have already said. This is because we will be recording parts of the Jury.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â chanlyniadau'r gwaith?



Ar ddiwrnod olaf y Rheithgor byddwn yn gwneud yn siŵr y byddwn ni i gyd yn cytuno ar y pethau rydyn ni wedi dod i wybod amdany'n nhw. A'r pethau yr hoffem ni ddweud wrth Lywodraeth Cymru.



Byddwn yn rhoi y pethau hyn mewn adroddiad byr. Byddwn yn rhoi'r adroddiad i Lywodraeth Cymru. A'r bobl sy'n edrych a yw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn gweithio.



Byddwn hefyd yn rhoi'r adroddiad ar ein gwefan ac yn ei anfon at y grwpiau sydd wedi cefnogi ein gwaith.



Diolch.